**Awdurdodau lleol mewn categori gweithgarwch dilynol: barnu cynnydd digonol yn 2021-2022**

Diben y papur briffio hwn yw atgyfnerthu'r egwyddorion allweddol a fydd yn ategu penderfyniad arolygwyr ynghylch p'un a yw awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd digonol i gael ei dynnu o gategori gweithgarwch dilynol. Mae gwneud y penderfyniad hwn bob amser yn her i arolygwyr, ond mae'r sefyllfa ddigynsail sydd wedi wynebu awdurdodau lleol er mis Mawrth 2020 yn debygol o'i gwneud hyd yn oed yn anoddach. Foddbynnag, rydym yn dymuno rhoi sicrwydd i CCAC y byddwn yn ymdrin â'n gwaith gweithgarwch dilynol gydameddylfryd cadarnhaol a chwbl resymol.

Dylid bob amser gwerthuso'r cynnydd y mae awdurdod lleol wedi ei wneud o ran pa mor dda y maent wedicefnogi a datblygu lles, cynnydd a chyflawniad eu dysgwyr.

Bydd ystod y dystiolaeth y mae awdurdodau lleol yn dymuno'i rhannu, ac yn gallu ei rhannu, yn amrywio ynôl cyd-destun a natur yr argymhellion. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr awdurdod lleol yn gallu dangos eu prosesau gwell ac ymagweddau gwell at eu gwaith, a sut maent yn bwriadu sicrhau bod y cynnydd yn gynaliadwy. Nid ydym yn dymuno bod yn gyfarwyddol am ystod y dystiolaeth y gallech ddewis ei darparu. Ein hymagwedd erioed fu y dylech gyflwyno'r dystiolaeth yr ydych yn ei defnyddio at eich dibenion atebolrwydd a gwerthuso mewnol. Gall trafodaethau ag arolygwyr cyswllt fod yn fuddiol i sicrhau bod yr hynrydych yn bwriadu ei gyflwyno yn ddefnyddiol a pherthnasol.

Mae'r argymhellion o'n harolygiadau yn dod o dan y tri phrif faes arolygu, sef deilliannau, darpariaeth acarweinyddiaeth.

O ran deilliannau, rydym yn cydnabod bod darparwyr ledled Cymru wedi wynebu amrywiaeth o wahanol heriau ar wahanol adegau ac ar wahanol lefelau er mis Mawrth 2020. Cofnodom eich gwaith o ran yr heriauniferus hyn yn ein dau lythyr yn ystod tymor y gwanwyn a thymor yr haf yn 2021.

Nid ydym wedi gwirio data yn genedlaethol i gefnogi'ch gwerthusiad o ba mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni. Yn ychwanegol, ni fydd gennym ni arolygiadau ysgol ac UCD cyfredol i lywio ein gwerthusiad. Panfydd yn berthnasol, bydd eich gwaith gydag ysgolion sy'n achosi pryder yn rhoi syniad o'ch capasiti i wella perfformiad ysgolion unigol. Bydd ein dull bras yr un fath â'r hyn rydym ni wedi ei rannu â chi yn ein harweiniad arolygu diwygiedig sy'n trafod yr heriau hyn yn estynedig. Efallai yn wir na allwn ni lunio barn bendant am wella deilliannau, ond ni fydd hyn o reidrwydd yn atal awdurdod lleol rhag cael ei dynnu o gategori gweithgarwch dilynol. Lle'r oedd argymhellion yn ymwneud â gwella agweddau penodol ar ddeilliannau, byddwn yn ystyried unrhyw dystiolaeth y gallech chi fod wedi ei gweld yn fuddiol i ffurfio'ch gwerthusiadau eich hun o effaith y camau rydych chi wedi eu cymryd i gefnogi gwelliant.

Bydd y cynnydd o ran agweddau ar **ddarpariaeth** yr awdurdod lleol i gefnogi ei ddysgwyr fel arfer yn cynnwys ffocws ar gymorth ar gyfer dysgwyr bregus a gwasanaethau cymorth eraill, er enghraifft gwaith gwella ysgolion. Yn gyffredinol, bydd y ffocws cynyddol ar y meysydd hyn yn dilyn arolygiad yn cynhyrchusail dystiolaeth a gwerthusiadau perthnasol i'w rhannu â'r tîm monitro. Rydym yn cydnabod y gallai fod ynanoddach i awdurdod lleol ddangos effaith y cynnydd gyda'i wasanaethau gwella ysgolion dros y 18 mis diwethaf.

Mae argymhellion ynghylch agweddau ar arweinyddiaeth fel arfer yn cynnwys ffocws ar werthuso prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Rydym yn ymwybodol y byddwch wedi ailgyflwyno'r gweithgareddauhyn yn raddol yn 2021. Ni fyddwch yn cael eich 'cosbi' am gael llai o waith hunanwerthuso a gwaith gwella 'ffurfiol' yn ystod cyfnod y pandemig. Fodd bynnag, byddwn yn disgwyl parhau i werthuso pa mor dda yr ydych yn gwybod am y cryfderau a'r diffygion yn eich darpariaeth a'ch meysydd blaenoriaeth.

Wrth ystyried **cynnydd yn gyffredinol**, bydd arolygwyr yn deall nad oes 'man penodedig' y mae'n rhaid i ddarparwyr ei gyrraedd er mwyn cael eu tynnu o gategori gweithgarwch dilynol. Bydd cynnydd yn cael ei farnu o ran ei drywydd a'i gynaliadwyedd. Yn y pen draw, bydd y penderfyniad i

dynnu awdurdod lleol o'r categori gweithgarwch dilynol yn cael ei seilio ar b'un a yw arweinwyr ac aelodau staff eraill wedi dangos y gallu i wneud y gwelliannau angenrheidiol, a'u cynnal. Bydd hyn yn anodd i'w gadarnhau yn y cyd-destun presennol, felly gallem dynnu awdurdod lleol yn ofalus o gategori gweithgarwch dilynol heb y lefelau hyder ybyddem yn disgwyl eu cael fel arfer.  Byddem yn parhau i fonitro'n agos gynnydd unrhyw awdurdod lleol a dynnwyd o gategori gweithgarwch dilynol trwy ein harolygwyr cyswllt. Os bydd ein pryderon yn dwysáu eto, byddem yn defnyddio ein dull cynhadledd wella y tu allan i'r broses arolygu a gweithgarwch dilynol i archwilio materion perthnasol a chefnogi gwelliant.

Rydym yn gobeithio y bydd yr ymddiriedaeth a'r cydweithrediad cynyddol rydym wedi eu datblygu yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn rhoi hyder i chi y byddwn yn gwneud ein gwaith ag uniondeb a'n proffesiynoldeb arferol, ac er budd ein dysgwyr.